

No.

PWYLLGOR CRAFFU TAI A CHYMUNEDAU DIOGEL

Cofnodion cyfarfod anghysbell a gynhaliwyd ar 9 Mawrth, 2022.

Mae'r Agenda ar gael [yma](#).

Mae recordiad y cyfarfod ar gael [yma](#).

Yn Bresennol: Y Cynghorydd A.M. Collins (Cadeirydd); Cynghorydd J. Aviet (Is-Gadeirydd); Cynghorwyr B.E. Brooks, C.A. Cave, S.M. Hanks, R. Nugent-Finn, A.C. Parker and S.D. Perkes

Hefyd yn bresennol: G. Doyle, W. Hennessy a H. Smith (Cynrychiolwyr Gweithgorau / Panel Tenantiaid).

941 CYHOEDDIAD -

Cyn cychwyn busnes y Pwyllgor, darllenodd y Cadeirydd y datganiad a ganlyn: "A gaf i atgoffa pawb sy'n bresennol y bydd y cyfarfod yn cael ei ffrydio'n fyw yn ogystal â'i recordio trwy'r rhyngwrdd ac mae'r recordiad hwn wedi'i archifo i'w weld yn y dyfodol."

942 YMDDIHEURIADAU AM ABSENOLDEB –

Derbyniwyd y rhain gan Gynghorwyr J.C. Bird a C. Ireland (Cyngor Dinasyddion Caerdydd a Chynrychiolydd y Fro)

943 COFNODION –

ARGYMHELLWYD – CYMERADWYO cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar 12 Ionawr, 2022 fel cofnod cywir.

944 DATGANIADAU BUDDIANT –

Ni dderbyniwyd unrhyw ddatganiadau buddiant.

945 ASESAD O'R FARCHNAD DAI LEOL (FDL) 2021 (CYF) -

Cyflwynwyd y cyfeiriad gan y Cabinet ar 14 Chwefror, 2022, gan Bennaeth y Gwasanaethau Tai ac Adeiladu a Rheolwr Gweithredol Tai Sector Cyhoeddus. Hysbyswyd yr Aelodau, pe na bai'r Pwyllgor Craffu yn gwneud unrhyw argymhellion i'r Cabinet, fod argymhelliad diwygiedig y Cabinet yn galluogi'r Asesiad o'r Farchnad

Dai Leol (AFDL) 2021 gael ei gytuno a'i fabwysiadu. Dyma bwyntiau allweddol yr adroddiad:

- Amlinellwyd y fframwaith statudol a pholisi sy'n ymwneud â swyddogaeth strategol tai'r Cyngor a rôl yr AFDL. Cyfeiriodd hyn at ystod eang o feysydd, megis Polisi Cynllunio Cymru a Nodiadau Cyngor Technegol (NCT); Roedd NCT 2 yn ei gwneud yn ofynnol i bob awdurdod lleol yng Nghymru gyflawni AFDL. Rhoddodd hyn ddealltwriaeth gynhwysfawr i'r Cyngor o'r farchnad dai leol gan ddarparu sylfaen dystiolaeth gadarn ar gyfer gwneud penderfyniadau strategol ynghylch tai a chynllunio yn ogystal â nodi 'bylchau' yn y farchnad dai.
- Amlinellwyd hefyd y fethodoleg ar gyfer cynnal asesiad o'r farchnad dai leol a ddatblygwyd yn 2014 gan Lywodraeth Cymru (LIC), ac a ddefnyddiwyd felly ar gyfer AFDL 2019 a 2021 (gan fod angen cyflawni'r rhain bob dwy flynedd).
- Bu'r Asesiad o'r Farchnad Dai Leol yn ystyried ac yn adolygu'r farchnad dai ledled y Fro ar draws pob deiliadaeth / math o dai, gan gynnwys perchentyaeth, rhentu preifat a thai fforddiadwy. Agwedd allweddol ar hyn oedd cyfrifo'r angen am dai fforddiadwy (a ddiffinnir fel 'tai a ddarparwyd i'r rhai nad oedd eu hanghenion yn cael eu diwallu gan y farchnad') boed hynny'n rhentu cymdeithasol, perchnogaeth cost isel neu drwy gynhyrchion rhent canolradd. Roedd hyn yn fwy perthnasol nag erioed, oherwydd yr hinsawdd economaidd bresennol ac oherwydd nad oedd trigolion y Fro yn gallu bod yn berchen ar eu cartrefi na hyd yn oed rentu eiddo oherwydd costau cynyddol.
- Roedd AFDL 2021 yn dangos bod angen o leiaf 1205 o unedau ychwanegol o dai fforddiadwy y flwyddyn am y pum mlynedd nesaf, sy'n cynnwys 917 o unedau ar gyfer rhent cymdeithasol, 79 ar gyfer perchentyaeth cost isel a 211 uned o lety rhent canolraddol. Roedd hyn yn gynydd sylweddol ar y 900 o unedau ychwanegol a nodwyd yn AFDL 2019, gyda'r galw cynyddol yn cael ei weld mewn meysydd fel tai a rennir neu gynhyrchion perchentyaeth cost isel a llety rhent canolradd (h.y. rhenti a osodwyd ychydig yn is na chyfraddau'r farchnad).
- O ran daearyddiaeth, roedd y galw mwyaf am dai yn y Barri a Phenarth.
- O ran maint yr eiddo, roedd y galw a'r angen mwyaf am gartrefi un a dwy ystafell wely.
- Roedd galw sylweddol hefyd am lety i bobl hŷn, gyda'r Cyngor yn comisiynu asesiad ar hyn a byddai Strategaeth ar gyfer Tai ar gyfer Pobl Hŷn ym Mro Morgannwg wedyn yn cael ei datblygu.
- Roedd yr AFDL yn "fwy o gelfyddyd na gwyddoniaeth" ac felly nid oedd yn fesur diffiniol o angen nac fel ffigur targed ar gyfer tai. Yn hytrach, dylid ei ddefnyddio fel arwydd o faint y broblem tai fforddiadwy a'r sail strategol ar gyfer cynllunio ar ei chyfer. Roedd yn sail i'r Adran Gynllunio edrych ar y Cynllun Datblygu Lleol (CDLI). Roedd hefyd yn cynorthwyo mewn trafodaethau gyda'r sector preifat o ran adeiladau newydd a datblygiadau tai newydd.
- Oherwydd pryderon a godwyd yn flaenorol gyda'r fethodoleg bresennol, roedd Llywodraeth Cymru wedi adolygu'r fethodoleg ac o'r asesiad nesaf byddai methodoleg newydd yn cael ei mabwysiadu, a fyddai, er ei bod yn

No.

fuddiol, yn golygu y byddai'n anodd cymharu'n uniongyrchol ag asesiadau blaenorol.

Yn dilyn cyflwyno'r adroddiad, cyfeiriodd y Cyngorydd Parker at y cynnydd mewn costau adeiladu (mor uchel â 15% (neu fwy) gyda llawer o ddeunyddiau adeiladu, ac ati ac a fyddai, yn ôl pob tebyg, yn cynyddu eto y flwyddyn nesaf), a fyddai'n effeithio ar gostau adeiladu'r Cyngor a gofynnodd a oedd y Cyngor yn ystyried hyn mewn perthynas â'i strategaeth dai. Mewn ymateb, esboniodd Pennaeth y Gwasanaethau Tai ac Adeiladu fod effaith costau uwch (o ganlyniad i nifer o ffactorau) eisoes yn cael ei gweld, gyda dim ond nifer cyfyngedig o ddatblygwyr yn gwneud cais am dendrau ar gyfer gwaith adeiladu'r Cyngor a bod y tendrau hyn yn fwy na'r gyllideb a'r costau a ragwelwyd gan y Cyngor, neu fod datblygwyr yn dweud wrth y Cyngor na allent bellach anrhydeddu eu tendrau blaenorol oherwydd costau cynyddol. Gallai'r chwyddiant hwn mewn costau adeiladu hefyd effeithio ar allu datblygwyr preifat i ddarparu'r canrannau o dai fforddiadwy sydd eu hangen ar hyn o bryd. Oherwydd hyn, ac o ran Cynllun Busnes Tai'r Cyngor, roedd y Cyngor wedi ystyried y rhagdybiaeth y byddai'r costau datblygu'n cynyddu y tu hwnt i 15% fel rhan o'i strategaethau tai ac adeiladu.

Ar ôl i'r Pwyllgor ystyried yr adroddiad a phob mater a phob goblygiad ynddo

ARGYMGELLWYD – BOD Aseiad o'r Farchnad Dai Leol 2021, sydd wedi'i atodi yn Atodiad A i'r adroddiad, yn cael ei dderbyn a bod y goblygiadau polisi ar gyfer Bro Morgannwg yn cael eu nodi.

Rheswm dros yr argymhelliad

Gyda golwg ar gynnwys yr adroddiad a thrafodaethau yn y cyfarfod.

946 MONITRO REFENIW A CHYFALAF AM Y CYFNOD 1 EBRILL I 31 IONAWR, 2022 (CAT) –

Diben yr adroddiad, fel yr amlinellwyd gan y Pennaeth Cyllid Dros Dro / y Swyddog A151, oedd cynghori'r Pwyllgor Craffu am y cynnydd sydd wedi'i wneud o ran gwariant refeniw a chyfalaf ar gyfer y cyfnod 1 Ebrill 2021 i 31 Ionawr 2021.

O ran y gyllideb refeniw, rhagwelwyd y byddai gwasanaethau sy'n rhan o gylch gorchwyl y Pwyllgor yn alldro o fewn y gyllideb ar ddiwedd y flwyddyn. Fodd bynnag, amcanestynnir y bydd gan y Gwasanaeth Troseddau Ieuenctid danwariant o £100,000, oherwydd swyddi gwag yn ogystal ag effaith COVID-19 ar y gweithgareddau a gyflawnir fel arfer gan y gwasanaeth.

O ran y Cyfrif Refeniw Tai (CRT), oherwydd y llithriant cyfalaf y cyfeirir ato yn yr adroddiad hwn (tua £5m), byddai hyn yn gofyn am ostyngiad yn y cyfraniad refeniw i gyfalaf ac felly ni fyddai unrhyw fenthyciadau'n cael eu codi eleni a byddai lefel cronfa'r CRT ar ddiwedd y flwyddyn yn aros yr un fath, oherwydd ni fyddai angen i'r cyngor dynnu arian allan o'r gronfa honno. Roedd hyn wedi'i gynnwys yn y cynllun busnes diwygiedig a gymeradwywyd gan y Cyngor ar y 7 Mawrth 2022.

Amlinellwyd y llithriant cyfalaf fesul cynllun hefyd, gyda ffactorau a materion sy'n cyfrannu megis costau uwch, dod o hyd i gontractwyr i wneud gwaith a materion o ran mynediad oherwydd bod pobl yn pryderu am gael contractwyr yn eu cartrefi oherwydd COVID-19. Fodd bynnag, ailadroddodd y Pennaeth Cyllid Dros Dro / Swyddog S151 y byddai'r cynlluniau y cyfeirir atynt yn cael eu cyflawni gyda rhai dyddiadau cychwyn eisoes wedi'u pennu, ond byddai angen 'ailbroffilio' i alluogi'r cynlluniau hyn i gael eu gweithredu'n effeithiol.

Yn dilyn cyflwyniad y Swyddog, cafwyd y cwestiynau a'r sylwadau canlynol gan y Pwyllgor:

- Gofynnodd y Cynghorydd Nugent-Finn y canlynol:
 - O ran tanwariant y GTI ac a oedd hyn yn symudol neu a oedd wedi'i gyfyngu'n gyfan gwbl i'r gyllideb hon; esboniwyd na fyddai'r arian yn cael ei golli ond yn hytrach yn cael ei drosglwyddo i'r cronfeydd wrth gefn, gyda'r nod o geisio recriwtio staff newydd i GTI y flwyddyn nesaf er mwyn llenwi'r swyddi gwag a defnyddio'r gyllideb berthnasol. Roedd 'risgiau' cyllidebol a chyfalaf o'r fath eisoes wedi'u nodi a'u hymgorffori yn y cynlluniau busnes a gwasanaeth perthnasol.
 - O ran prinder contractwyr a'r potensial i gysylltu â GTI, gwasanaethau ieuencid eraill a chynlluniau prentisiaeth er mwyn helpu i fynd i'r afael â'r rhain, byddai'r awgrymiadau'n cael eu cyfeirio'n ôl at y Datblygiad Sefydliadol ac Adran Ddysgu, a oedd eisoes yn gweithio'n galed iawn i edrych ar gyfleoedd prentisiaeth. At hynny, roedd gan y Tîm Tai eisoes berthynas lwyddiannus a pharhaus iawn gyda datblygwyr sy'n adeiladu tai Cyngor mewn cysylltiad â phrentisiaethau a hyfforddiant megis gyda grwpiau allweddol fel NEETS ('ddim mewn cyflogaeth, addysg na hyfforddiant'). Roedd yn ymddangos bod adnoddau / prinder contractwyr yn broblem ledled Cymru ac yn wir yng ngweddill y Deyrnas Unedig, ac na ellid ond mynd i'r afael â hwy yn y tymor hir drwy ddulliau amrywiol o gefnogi ac annog, h.y. ar lefel leol, rhoi cynllun ôl-ffitio wedi'i optimeiddio ar waith mewn nifer o eiddo o fewn stoc y Cyngor a chynorthwyo contractwyr i uwchsgilio drwy fynd i'r coleg. Roedd cyfleoedd cyflogaeth i bobl ifanc ac oedolion hefyd yn cael eu hystyried ar y cyd â'r Gwasanaethau Plant yn y Fro a'r Panel Rhianta Corfforaethol, yn ogystal ag ar lefel fwy 'strategol' h.y. Bargen Ddinesig Prifddinas-Ranbarth Caerdydd.
- O ran ymholiad y Cynghorydd Parker a oedd y Cyngor yn dal i gysylltu â Choleg Caerdydd a'r Fro mewn perthynas â phrentisiaethau ym maes adeiladu a meysydd allweddol eraill, cadarnhawyd mai'r un yr oedd y sefyllfa o hyd, a'u bod yn cefnogi'r Cyngor o ran ei raglen brentisiaeth fewnol ei hun yn y Gwasanaethau Adeiladu.
- Pwysleisiodd y Cynghorydd Perkes bwysigrwydd ar lefel unigol a chymunedol yr angen i gynyddu buddsoddiad mewn hyfforddiant a phrentisiaethau a rhoi cyfleoedd i bobl fynd ymlaen i addysg bellach er

No.

mwyn cael cymwysterau llawn mewn meysydd gwaith allweddol fel adeiladu.

Yn y pen draw, ar ôl i'r Pwyllgor ystyried yr adroddiad a phob mater a phob goblygiad ynddo

ARGYMHELLWYD – Nodi'r sefyllfa o ran cyllidebau refeniw a chyfalaf 2021/22.

Rheswm dros yr argymhelliad

Gyda golwg ar gynnwys yr adroddiad a thrafodaethau yn y cyfarfod.

947 ADRODDIAD MONITRO CYNLLUN CYFLAWNI BLYNYDDOL: PERFFORMIAD CHWARTER 3 2021/22 (CAT) –

Amlinellodd yr adroddiad perfformiad, fel y'i cyflwynwyd gan Bennaeth y Gwasanaethau Tai ac Adeiladu, gynnydd y Cyngor yn Chwarter 3 (1 Ebrill i 31 Rhagfyr 2021) tuag at gyflawni ei ymrwymadau yn y Cynllun Cyflawni Blynyddol (2021/22) fel rhai sy'n cyd-fynd ag Amcanion Llesiant ei Gynllun Corfforaethol.

Roedd y Cyngor wedi gwneud cynnydd cadarnhaol o ran cyflawni ei ymrwymadau yn ystod y flwyddyn mewn perthynas â'i Gynllun Cyflawni Blynyddol (2021/22). Roedd y perfformiad hwn wedi cyfrannu at statws Gwyrdd cyffredinol ar gyfer y Cynllun yn Chwarter 3 (C3).

Priodolwyd statws perfformiad gwyrdd i bob un o 4 Amcan Llesiant y Cynllun Corfforaethol yn C3 a oedd yn adlewyrchu'r cynnydd a wnaed hyd yma. Roedd hyn yn gadarnhaol o ystyried yr heriau parhaus sy'n deillio o'r pan demig ac yn adlewyrchu ymdrechion sylweddol staff y Cyngor ac eraill.

Roedd 91% (288 allan o 317) o'r gweithgareddau cynlluniedig a amlinellwyd yng Nghynllun Cyflawni Blynyddol y Cyngor wedi'u priodoli i berfformiad Gwyrdd yn ystod y chwarter, ac, ar ben arall y sbectrwm, roedd gan nifer fach o weithgareddau a gynlluniwyd, 2% (8), statws Ambr a phriodolwyd statws Coch i 7% (21).

O'r 21 o gamau gweithredu y priodolwyd statws perfformiad Coch iddynt yn ystod y chwarter, roedd 38% (8) yn uniongyrchol o ganlyniad i fesurau ail-flaenoriaethu gwasanaethau a gyflawnwyd mewn ymateb i effaith y pandemig COVID-19 parhaus. Mewn perthynas â'r meysydd hyn, pan fo'n briodol, roedd gwaith pellach nawr yn ailddechrau fel rhan o gynlluniau a strategaeth adfer y Cyngor.

O'r 43 o fesurau perfformiad chwarterol sy'n cyd-fynd ag Amcanion Llesiant Cynllun Corfforaethol y Cyngor, adroddwyd data ar gyfer 41 o fesurau lle'r oedd statws perfformiad yn berthnasol. Priodolwyd Statws perfformiad Gwyrdd i 56% (23) ohonynt, statws Ambr i 5% (2), a statws Coch i 39% (16). Mewn perthynas â'r 16 mesur y priodolwyd statws perfformiad Coch iddynt yn ystod y chwarter, roedd effaith COVID-19 wedi cyfrannu at 25% (4) yn methu'r targed.

Roedd yr adroddiad hefyd yn gofyn i Aelodau Etholedig ystyried canlyniadau perfformiad C3 a'r camau adferol arfaethedig i fynd i'r afael â meysydd o danberfformio a nodwyd.

Cyfeiriodd y Pennaeth Gwasanaethau Tai ac Adeiladu Aelodau at yr hyn a gyflawnwyd o fewn y Cynllun Cyflawni Blynnyddol sy'n benodol i gylch gwaith y Pwyllgor, yn ymwneud â'r 4 Amcan Llesiant megis y gwaith a wnaed i ailgartrefu teuluoedd o Syria drwy Gynllun Adsefydlu'r DU (UKRS); cyflwyno mentrau i alluogi tenantiaid i fynd ar-lein; bwrw ymlaen â phrosiect peilot tloidi bwyd Llanilltud Fawr; yn ogystal â'r gwaith gwerthfawr a wnaed gan Dîm Datblygu Cymunedol y Cyngor gyda phartneriaid (h.y. cynlluniau Cymunedau am Waith); darparu cymorth parhaus ac effeithiol i ddiodefwyr cam-drin domestig er mwyn gwneud iddynt deimlo'n ddiogel; cyflawni'r Prosiect Ôl-ffitio wedi'i Optimeiddio er mwyn sicrhau gwell gwres ac ynni cost-effeithiol i denantiaid; agor Pod Bwyd Penarth; a gwneud gwaith allanol allweddol ar gartrefi tenantiaid.

Yn dilyn cyflwyniad y Swyddog, codwyd y cwestiynau a'r sylwadau dilynol gan y Pwyllgor

- O ran ymholiad y Cynghorydd Aviet ynghylch ymateb y Cyngor i'r stormydd diweddar ar gyfer eiddo'r Cyngor ac eiddo nad ydyw'n perthyn i'r Cyngor a sut y gallai'r Cyngor helpu tenantiaid a thrigolion, esboniwyd y bu ymateb helaeth ar draws y Cyngor i'r 3 storm a oedd wedi taro Cymru un ar ôl y llall (gan gynnwys y Fro), gyda'r Cyngor yn sefydlu ystafell cynllunio ar gyfer argyfyngau i helpu i gydlynu ei ymdrechion, gyda chymorth a ddarperir gan y gwasanaethau adeiladu a'r timau rheoli adeiladu, a oedd yn gweithio'n gyson drwy'r dydd, bob dydd i ddelio ag effeithiau'r stormydd ar dai. Roedd yn ymddangos bod y difrod mwy difrifol neu strwythurol wedi digwydd i eiddo preifat, er enghraifft, tri hen dŷ cyngor yn Gibbonsdown yr oedd eu toeau gwastad wedi dod yn rhydd oherwydd y gwyntoedd cryfion ac a gafodd eu gwneud yn ddiogel ar unwaith gan swyddogion o'r adran rheoli adeiladu. Roedd eiddo'r Cyngor wedi cael mwy o fân ddifrod fel teils a llechi rhydd neu wedi'u difrodi (er y bu llawer o ddifrod i ffensys). O ran tai ac eiddo preifat, cafodd llawer o'r gwaith angenrheidiol ei wneud drwy'r adran rheoli adeiladu. Hefyd, er gwaethaf rhai ymholiadau cychwynnol, nid oedd angen ymateb i unrhyw geisiadau am dai brys (y byddai'n ofynnol i'r cyngor eu darparu pe bai angen), oherwydd bod pobl troi at yswirwyr eu tŷ yn y lle cyntaf neu'n dibynnu ar ffrindiau, teulu a chymdogion. Daeth 260 o ymholiadau i law'r Gwasanaethau Adeiladu mewn perthynas â stormydd, gyda rhywfaint o waith yn cael ei wneud yn ystod y storm ond gyda gwaith atgyweirio mwy peryglus (h.y. ar doeau) yn cael ei wneud ar ôl i'r stormydd ddod i ben.
- Cyfeiriodd y Cynghorydd Nugent-Finn at fesurau ataliol yn ymwneud â digartrefedd, gan godi'r broblem bod pobl yn ceisio cael gwarantwr ar gyfer eiddo rhent yn y sector preifat os nad oedd ganddynt gyfeiriad neu hanes blaenorol o rentu eiddo (h.y., pe bai nhw wedi bod allan o'r wlad) a gofynnodd a oedd unrhyw ffordd o ddelio â'r amod hwn. Esboniwyd bod gan y Cyngor ei Gynllun Tenantiaeth a Gynorthwyr a allai helpu i ddarparu bondiau neu rent y mis cyntaf ymlaen llaw i bobl mewn amgylchiadau o'r fath, yn ogystal â chysylltu ar ran preswylwyr â landlordiaid, yn enwedig

No.

pan fo'r Cyngor wedi meithrin perthynas gadarn â nhw sydd eisoes yn seiliedig ar ymddiriedaeth. Yn y pen draw, mater i'r landlord fyddai penderfynu a fyddent, yn absenoldeb gwarantwr neu gyfeiriad, yn fodlon derbyn tenant, yn enwedig yn yr hinsawdd ariannol bresennol ac effaith COVID-19. Fodd bynnag, roedd yn ymddangos mai dim ond ychydig o achosion o'r fath oedd yn bodoli ond pe bai gan y Cynghorydd unrhyw achosion penodol yr oedd angen cymorth arni, gallai gysylltu â Rheolwr Gweithredol yr adran Tai Sector Cyhoeddus a fyddai'n helpu cymaint â phosibl. Pwysleisiwyd hefyd bod y Cyngor yn gweithio'n agos gyda landlordiaid y sector preifat gymaint â phosibl a bod ganddo gyllid i helpu i atal digartrefedd, er mwyn helpu i leihau rhestrau aros ar gyfer tai cymdeithasol a sicrhau llety i bobl drwy lwybr y sector preifat.

Ar ôl i'r Pwyllgor ystyried yr adroddiad a phob mater a phob goblygiad ynddo

ARGYMGELLWYD –

(1) NODI'R canlyniadau perfformiad a chynnydd tuag at gyflawni ymrwymadau Cynllun Cyflawni Blynyddol 2021/22 yn unol ag Amcanion Lles Cynllun Corfforaethol y Cyngor o fewn cylch gwaith y Pwyllgor.

(2) NODI'R camau adferol sydd i'w cymryd i fynd i'r afael â meysydd lle mae tanberfformiad ac i fynd i'r afael â'r heriau allweddol a nodwyd yng nghylch gwaith y Pwyllgor.

(3) N O D I'R cynnydd sy'n cael ei wneud drwy strategaeth adfer y Cyngor a chynlluniau adfer y Gyfarwyddiaeth mewn ymateb i bandemig parhaus y Coronafeirws.

Rheswm dros yr argymhelliad

(1-3) Gyda golwg ar gynnwys yr adroddiad a thrafodaethau yn y cyfarfod.

948 CYNLLUNIAU GWASANAETH A PHENNU TARGEDAU I GYFLAWNI CYNLLUN CYFLAWNI BLYNYDDOL 2022/23 (CAT) -

Amlinellodd yr adroddiad, fel y'i cyflwynwyd gan y Pennaeth Tai a Gwasanaethau Adeiladu, y Rheolwr Gweithredol Tai Sector Cyhoeddus a Phennaeth Adfywio a Chynllunio, y cynlluniau gwasanaeth a'r targedau sy'n rhan o gylch gorchwyl y Pwyllgor Craffu hwn: Gwasanaethau Tai ac Adeiladu, Gwasanaethau Rheoliadol a Rennir a rhannau o Adfywio a Chynllunio. Mae'r rhain yn nodi'r meysydd ffocws penodol sy'n gysylltiedig â chyflawni Cynllun Cyflawni Blynyddol y Cyngor ar gyfer 2022/2023 sy'n cyd-fynd â phedwar Amcan Llesiant y Cynllun Corfforaethol.

Byddai datblygu'r Cynllun Cyflawni Blynyddol yn helpu i gyflawni rhwymedigaethau statudol y Cyngor o dan Ddeddf Llywodraeth Leol ac Etholiadau (Cymru) 2021 a Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015 (WBF). Yn unol â dyletswyddau statudol y Cyngor, roedd yn adolygu perthnasedd ei Amcanion Llesiant yn barhaus. Roedd y Cynllun Cyflawni Blynyddol a'r

Cynlluniau Gwasanaeth hefyd yn manylu ar y gweithgareddau a gaiff eu cynnal yn 2022/23 i gyflawni Amcanion Llesiant y Cyngor yng nghyd-destun ei Strategaeth Adfer.

Ystyriodd pob Pwyllgor Craffu Gynllun Cyflawni Blynyddol drafft ym mis Rhagfyr 2021 ac roedd eu barn, ochr yn ochr â barn rhanddeiliaid allweddol eraill, wedi llywio'r Cynllun terfynol, fel y'i cymeradwywyd gan y Cabinet ar 28 Chwefror, 2022 a'r Cyngor ym mis Mawrth 2022.

Adlewyrchwyd yr ymrwymadau yn y Cynllun Cyflawni Blynyddol yn y Cynlluniau Gwasanaeth (Atodiad A i'r adroddiad) ynghyd â thargedau gwella gwasanaeth arfaethedig (Atodiad B i'r adroddiad) i ddangos sut y byddai meysydd gwasanaeth unigol yn cyfrannu at eu cyflawni ac at gyflawni pedwar Amcan Llesiant y Cyngor yn gyffredinol, a'r holl weithgareddau a gynlluniwyd fel yr oeddent yn ymwneud â chylch gorchwyl y Pwyllgor hwn (fel y dangosir yn Atodiad C).

Ar gyfer y Gwasanaethau Tai ac Adeiladu, y camau gweithredu a'r themâu allweddol o'u cynllun gwasanaeth oedd:

- Ymgysylltu â'r gymuned, h.y. rhoi'r camau gweithredu sy'n deillio o'r strategaeth cyfranogiad tenantiaid neu'r strategaeth ymgysylltu â thenantiaid ar waith, annog mwy o denantiaid i gymryd rhan mewn amrywiaeth o ffyrdd creadigol y flwyddyn nesaf, yn ogystal ag ehangu ar fentrau ymgysylltu â'r gymuned sy'n canolbwyntio ar ardaloedd megis y Pod Bwyd a sefydlwyd yn eglwysi Sant Luke a Sant Paul ym Mhenarth a oedd yn ymdrin â thlodi bwyd, materion amgylcheddol a chynyddu cyflogadwyedd.
- Datblygu'r cynllun Bancio Amser / gwirfoddoli, gan sicrhau ei fod yn canolbwyntio mwy ar y Fro h.y. er mwyn sicrhau y gellid defnyddio mwy o'r tocynnau a enillir drwy waith gwirfoddoli ym Mro Morgannwg.
- Rhoi system TGCh newydd sy'n seiliedig ar dai ar waith, gyda'r potensial i breswylwyr gael mynediad at wasanaethau'n ddigidol, megis atgyweirio adroddiadau, trefnu apwyntiadau a gwneud cais am eiddo ar-lein, yn ogystal â galluogi staff i weithio o bell er mwyn iddynt allu bod allan o'r swyddfa yn fwy a mynd o gwmpas yr ystadau tai yn ymweld â thenantiaid.
- Mwy o ymgysylltu â staff a chynllunio olyniaeth yn fwy effeithiol er mwyn datblygu a chadw staff yn y maes Tai.
- Adolygu model darparu gwasanaeth y Cyngor mewn perthynas â digartrefedd oherwydd effaith COVID-19 a newidiadau cysylltiedig yn y ddeddfwriaeth.
- Mwy o bwyslais ar gynhwysiant ariannol a chynllunio i rannu mwy o wybodaeth a gweithgareddau mewn perthynas â chynngor ar arian a dyled, i helpu pobl i ddod yn barod am waith, cymorth ychwanegol ar gyfer mathau o fentrau buddsoddi cymunedol a hefyd cymorth sy'n gysylltiedig â thai yn ogystal â'r rhaglen Grant Cynnal Tai i helpu i wrthsefyll y cynnydd mewn tlodi tanwydd a bwyd.

Amlinellodd y Pennaeth Adfywio a Chynllunio hefyd y camau gweithredu a'r themâu allweddol o'i wasanaeth:

No.

- O ran y Grant Cyfleusterau i'r Anabl, roedd adolygiad yn cael ei gynnal (ar y cyd â chydweithwyr o'r adran Dai a Gwasanaethau Cymdeithasol) o'r tri thîm addasiadau unigol, er mwyn adeiladu ar eu llwyddiannau, yn ogystal â chwalu'r rhwystrau canfyddedig rhwng y gwahanol lwybrau at gymorth ar gyfer tai'r sector preifat a'r sector cyhoeddus a'r rhyngweithio â chydweithwyr yn y gwasanaethau cymdeithasol (drwy iechyd galwedigaethol) yn y maes hwn.
- Cynyddu'r cyflenwad o dai fforddiadwy, hygyrch o ansawdd da drwy fanteisio i'r eithaf ar gyfleoedd drwy'r system gynllunio a thrwy broses Adran 106, a cheisio mynd i'r afael ag unrhyw heriau a chyfyngiadau a achosir gan gostau uwch yn y maes adeiladu a deunyddiau sy'n cael effaith ar hyfywedd.
- Gwaith parhaus Gwasanaeth Rheoli Eiddo Gwag y Cyngor, a gefnogir gan gyllid oddi wrth Lywodraeth Cymru, i aildefnyddio'r stoc o dai gwag, gan gynnwys rhoi camau gorfodi ar waith pan fo angen.

Yn dilyn cyflwyniad y Swyddogion, codwyd y cwestiynau a gwnaed y sylwadau dilynol:

- O ran ymholiad y Cynghorydd Perkes a fyddai'r cymorth a'r cyngor a grybwyllwyd ar gyfer trigolion sydd â phroblemau ariannol ar gael ar-lein / neu'n cael eu darparu'n gorfforol, h.y. yn y 'Siop Un Stop' yn Heol Holltwn yn y Barri, esboniwyd y byddai'r Siop Un Stop yn bwynt cyswllt pwysig i bobl gael cyngor a chymorth ariannol, yn ogystal â gwasanaethau ategol eraill a byddent yn symud o gymorth dros y ffôn ac ar-lein (oherwydd COVID-19) i fwy o gyswllt wyneb yn wyneb yno. Hefyd, mae'r Cyngor yn cyflogi cynghorwyr arian a allai hefyd gynnig cymorth o bell neu wyneb yn wyneb i breswylwyr pan fo'n bosibl, megis trosglwyddo i Gredyd Cynhwysol (CC).
- Gofynnodd G. Doyle (Cynrychiolydd Tenantiaid) am y trefniadau o ran darparu bwyd a diod ar gyfer y bobl hynny sy'n byw mewn llety dros dro i'r digartref megis yn y gwestai ger Maes Awyr y Rhws. Yr ateb oedd bod trigolion yn y gwestai hyn yn wynebu heriau oherwydd nad oedd unrhyw archfarchnadoedd gerllaw ac nad oedd unrhyw gyfleusterau coginio yn ystafelloedd y gwesty (gyda dim ond tostwyr, tegellau a phoptai microdon ar gael, ond dim stofiau), ond byddai'r Cyngor bob amser yn ceisio lleihau hyd eu harhosiad yn y lleoliadau hyn a symud pobl ymlaen i dai a rennir gyda chyfleusterau gwell. At hynny, pobl sengl yn unig oedd y preswylwyr mewn llety o'r fath, gyda theuluoedd ac unigolion mwy agored i niwed yn mynd i lety mwy arbenigol, h.y. yr hostel deuluol yn Treharne a oedd â mwy o gyfleusterau coginio a chyfleusterau eraill. Hefyd, i'r bobl hynny sy'n hunanynysu oherwydd COVID-19 yn y gwestai, byddai bwyd yn cael ei ddarparu iddynt drwy'r gwesty. Roedd defnyddio llety o'r fath yn fesur brys, oherwydd COVID-19, a byddai'r Cyngor yn rhoi'r gorau i ddefnyddio'r dull hwn yn y tymor hir.
- Dywedodd y Cynghorydd Nugent-Finn fod angen sicrhau bod pobl yn y llety gwely a brechwast / gwestai dros dro yn cael eu 'grymuso' er mwyn iddynt symud ymlaen o'r math hwn o lety, yn ogystal â'r angen i ail-lansio a dangos y cymorth, y cyngor a'r gefnogaeth y gallai Pobl a'r Siop Un Stop yn Heol Holltwn eu cynnig i drigolion y Fro. Esboniwyd bod COVID-19 wedi

atal lansio'r gwasanaeth Siop Un Stop yn swyddogol o'r blaen, ond byddai trafodaethau'n cael eu cynnal gyda Phobl i ail-lansio'r gwasanaeth yn ffurfiol.

- Soniodd y Cynghorydd Hanks am yr ymateb cadarnhaol a gafodd Pod Bwyd Penarth, ac a fyddai prosiect peilot tlodi bwyd Llanilltud Fawr yn dilyn model tebyg. Eglurwyd bod y rhain yn fentrau ar wahân a chwbl wahanol, gyda menter Llanilltud yn canolbwyntio'n llwyr ar dlodi bwyd, tra bod yr un ym Mhenarth yn canolbwyntio mwy ar dai ac yn cynnwys agweddau eraill fel yr amgylchedd ac ymgysylltu'n gryfach â'r gymuned. Fodd bynnag, gellid defnyddio arfer gorau o'r ddau brosiect ar gyfer prosiectau tebyg mewn rhannau eraill yn y Fro, lle ceir angen amlwg am y mathau hyn o ymatebion.
- Dywedodd y Cynghorydd Parker y gallai'r gofyniad am dai fforddiadwy, yn yr hinsawdd economaidd sydd ohoni, atal adeiladwyr llai rhag dod ymlaen i adeiladu tai, ac efallai y byddai hyn yn rhywbeth y byddai angen i'r cyngor ei ystyried. Mewn ymateb, byddai pryderon o'r fath yn cael eu hystyried fel rhan o'r adolygiad o'r Cynllun Datblygu Lleol, a oedd yn edrych ar yr holl bolisiau gan gynnwys y polisi yr oedd y cynghorydd wedi cyfeirio ato. Byddai'r broses yn cymryd tua phedair blynedd a byddai llawer o waith yn cael ei wneud ar hyfywedd a'r hyn y byddai'r Cyngor yn gofyn amdano o ran gofynion Adran 106.

Ar ôl i'r Pwyllgor ystyried yr adroddiad a phob mater a phob goblygiad ynddo

ARGYMGELLWYD –

(1) BOD y Cynlluniau Gwasanaeth (sydd wedi'u hatodi yn Atodiad A i'r adroddiad) a'r holl weithgareddau arfaethedig fel y maent yn ymwneud â chylch gwaith y Pwyllgor hwn (fel y dangosir yn Atodiad C i'r adroddiad) yn cael eu cymeradwyo i'w hystyried gan y Cabinet.

(2) BOD y targedau arfaethedig ar gyfer gwella gwasanaethau ar gyfer 2022/2023 (sydd wedi'u hatodi yn Atodiad B i'r adroddiad) sy'n ymwneud â chylch gwaith y Pwyllgor hwn yn cael eu cymeradwyo i'w hystyried gan y Cabinet.

Rheswm dros yr argymhelliad

(1) Sicrhau bod y Cynlluniau Gwasanaeth sy'n cyd-fynd â chylch gwaith y Pwyllgor hwn yn gywir, yn gyfredol ac yn berthnasol a'u bod yn dod yn brif ddogfen ar gyfer monitro a mesur perfformiad yn erbyn Cynllun Cyflawni Blynyddol y Cynllun Corfforaethol yn ystod 2022/2023.

(2) Sicrhau bod Fframwaith Mesur Perfformiad Cynllun Corfforaethol y Cyngor yn nodi set berthnasol o fesurau a thargedau perfformiad y gellir monitro a mesur y Cynllun Cyflawni Blynyddol yn eu herbyn yn ystod 2022/2023.

949 GRŴP GORCHWYL A GORFFEN: DARPARIAETH TAI A DIGARTREFEDD YM MRO MORGANNWG (PW)

Diben yr adroddiad, fel y'i nodwyd gan y Swyddog Gwasanaethau Democraidaidd a Chraffu, oedd i'r Aelodau ystyried canfyddiadau ac argymhellion y prif adroddiad ar y Ddarpariaeth Tai a Digartrefedd ym Mro Morgannwg (sydd wedi'u hatodi yn Atodiad 1 i'r adroddiad) ac i'r rhain gael eu cyfeirio at y Cabinet i'w hystyried a'u cymeradwyo (gydag unrhyw sylwadau neu argymhellion ychwanegol yr oedd y Pwyllgor am eu hychwanegu).

Y prif adroddiad (Atodiad 1) oedd penllanw'r gwaith a wnaed gan y Grŵp Gorchwyl a Gorffen, fel y'i cefnogir gan Swyddogion y Cyngor a rhanddeiliaid eraill a phartïon â diddordeb, a sefydlwyd yn gynnar yn 2021 i edrych ar ddarpariaeth tai a digartrefedd fel rhan o adferiad Cyngor Bro Morgannwg yn dilyn COVID-19. Amlinellodd yr adroddiad y meysydd a'r themâu allweddol sy'n ymwneud â'r ddarpariaeth tai a digartrefedd yn awr ac yn y dyfodol, gyda'r heriau a wynebir o ran bwrw ymlaen â hyn gan y Cyngor, Llywodraeth Cymru, Awdurdodau Lleol eraill a phartneriaid hefyd wedi'u nodi.

Rhan allweddol o'r prif adroddiad oedd yr argymhellion a wnaed gan y Grŵp Gorchwyl a Gorffen a oedd yn cwmpasu nifer o feysydd:

- Bod y Cyngor yn parhau i ddefnyddio cynlluniau 'oddi ar y silff' er mwyn datblygu llety dros dro a blaenoriaethau fel rhan o'i raglen datblygu tai gynnwys sy'n cynnwys adeiladau newydd a chaffael eiddo sy'n bodoli eisoes.
- Bod y Cyngor yn adeiladu ar ac yn datblygu'r dull 'Tai yn Gyntaf' mewn perthynas â phobl a oedd yn ddigartref a grwpiau eraill sy'n agored i niwed.
- Bod y Cyngor yn sicrhau mwy o ddarpariaeth ar gyfer pobl a oedd yn 'barod am waith' er mwyn eu helpu i bontio o fudd-daliadau i gyflogaeth er mwyn eu galluogi i ddal gafael yn eu llety presennol a throsglwyddo i lety mwy parhaol os yw'n briodol. Dylai hyn gynnwys edrych ar gynyddu'r cyfleoedd i denantiaid chwilio am gyfleoedd cyflogaeth a phrentisiaethau o fewn gwahanol adrannau'r Cyngor a'i wasanaethau.
- Bod y Cyngor yn darparu llety modiwlaidd pellach gyda chymorth dwys, cofleidiol, fel y gwelir yn natblygiad Court Road.
- Bod y Cyngor yn sicrhau mwy o ddarpariaethau ar gyfer llety i bobl hŷn (yn enwedig yn y Fro wledig), er mwyn cynyddu'r cyfleoedd i denantiaid hŷn sy'n byw mewn cartrefi mawr a rhyddhau'r llety hwnnw i'w ddefnyddio gan y bobl hynny sy'n byw mewn tai sydd wedi dod yn anaddas (gan gynnwys y preswylwyr hynny sy'n byw mewn llety dros dro a llety i'r digartref).
- Bod y Cyngor yn cynnal adolygiad o'i asedau a'i dai presennol h.y. , adolygiad o strategaeth dad-ddynodi'r Cyngor er mwyn cynyddu'r cyflenwad o dai person sengl ac ystyried adolygu unedau a oedd wedi'u dad-ddynodi'n flaenorol yn ogystal ag ymchwilio i'r posibilrwydd o addasu eiddo eraill i'r mathau o dai sydd eu hangen fwyaf.
- Bod Cyngor Bro Morgannwg yn ymchwilio ar lefel ranbarthol i'r posibilrwydd o gydweithio ag Awdurdodau Lleol eraill i brynu unedau sy'n defnyddio Dulliau Adeiladu Modern, er mwyn sicrhau y gwneir y defnydd mwyaf

darbodus o arian ar gyfer pob awdurdod lleol a chynyddu cyflymder a nifer y tai cymdeithasol sydd ar gael i gleientiaid digartref.

- Bod y Cyngor yn edrych ar y posibilrwydd o gyflymu'r broses rhwng cynllunio ar gyfer safleoedd tai cymdeithasol newydd a symud i mewn yn barod ar gyfer tenantiaid, h.y. cwblhau'r gwaith o adeiladu unedau tai o'r fath oddi ar y safle. Fel rhan o hyn, dylai'r Cyngor edrych ar enghreifftiau o arfer gorau mewn Awdurdodau Lleol eraill yng Nghymru ac mewn mannau eraill.
- Bod y Cyngor yn adeiladu eiddo carbon niwtral ac yn buddsoddi mewn stoc wreiddiol i'w haddasu i'r un lefel pan fo'n bosibl er mwyn sicrhau llety cynaliadwy a lleihau tloedi tanwydd.
- Bod y Cyngor yn ystyried rhoi blaenoriaeth i drigolion lleol yn ystod cam cyntaf y dyraniad tai ar safleoedd gwledig, ond yna'n ystyried dyrannu tai o'r fath i breswylwyr mewn mannau eraill ym Mro Morgannwg os nad oes digon o alw neu flaenoriaeth yn yr ardal leol ei hun.
- Bod y Cyngor yn adolygu'r cyfleoedd i ehangu'r ddarpariaeth Siop Un Stop yn Heol Holltwn h.y. cynnwys mwy o wasanaethau Trydydd Sector i ategu'r gwaith a wneir gan Bobl. Fel rhan o hyn, dylid ystyried hyrwyddo a rhoi cyhoeddusrwydd i'r gwasanaethau sydd ar gael i holl drigolion Bro Morgannwg.
- Bod y Cyngor yn datblygu protocol ar gyfer cael gwared â thir sy'n rhoi blaenoriaeth i gael gwared â thir dros ben sy'n eiddo i'r Cyngor ar gyfer adeiladu tai cyngor newydd yn ogystal â phrynu tir o fewn y farchnad breifat, ac ymhellach, bod swyddogion y Cyngor yn cysylltu â swyddogion Llywodraeth Cymru ynghylch tir dros ben yn y sector cyhoeddus.

Hefyd, o ran monitro, argymhellwyd y dylid darparu adroddiad sy'n rhoi'r wybodaeth ddiweddaraf am unrhyw gynnydd a wnaed ar yr uchod i'r Pwyllgor Craffu ymhen 12 mis ac i'r adroddiad gael ei gyfeirio wedyn at y Cabinet i'w ystyried.

Yn dilyn cyflwyno'r adroddiad, dywedodd y Cynghorydd Perkes (a oedd hefyd yn Gadeirydd y Grŵp Gorchwyl a Gorffen) fod yr adolygiad hwn o'r Ddarpariaeth Tai a Digartrefedd wedi cynnwys grŵp trawsbleidiol o Aelodau o'r Pwyllgor Craffu hwn a'i fod hefyd wedi cynnwys cynrychiolydd o'r Gweithgor / Panel Tenantiaid, a weithredodd fel Is-gadeirydd y Grŵp, yn ogystal â'r cyfraniadau a wnaed gan amrywiol Swyddogion Cyngor Bro Morgannwg (megis Gwasanaethau Democrataidd, Tai, y Gyfraith, Adran 106 a Gwasanaethau Cymdeithasol) ynghyd ag amrywiol bartneriaid ac arbenigwyr allanol megis cynrychiolwyr o Pobl, Cymdeithas Tai Newydd a Llywodraeth Cymru (LIC).

Roedd y cyfraniadau a wnaed gan yr holl bartïon a gymerodd ran yn yr adolygiad wedi helpu i gynyddu gwybodaeth a dealltwriaeth y Grŵp yn gyflym ac wedi rhoi dealltwriaeth drylwyr i'r Grŵp o'r anghenion, y materion a'r heriau a wynebier gan bobl ddigartref ac o ran nodi pwy oedd y bobl hyn er mwyn eu cynorthwyo'n well. Edrychodd y Grŵp hefyd ar yr hyn yr oedd Llywodraeth Cymru yn chwilio amdano gan Awdurdodau Lleol o ran y ddarpariaeth tai a digartrefedd, yn ogystal â'r gwahanol bolisiau, deddfwriaeth a gweithdrefnau yr oedd angen i'r Cyngor eu dilyn yn y maes hwn. Roedd yr holl gyfraniadau hyn wedi helpu i lywio argymhellion y Grŵp yn y prif adroddiad, o'r mathau o dai sydd eu hangen i roi

mwy o bwyslais ar ddefnyddio Dulliau Adeiladu Modern. Roedd hefyd yn bwysig adeiladu ar lwyddiant y datblygiad arobryn yn Court Road o ran llety a chymorth dros dro. Roedd yr adolygiad hefyd wedi pwysleisio'r angen i nodi achosion o ddigartrefedd yn fwy effeithiol (gan gynnwys digartrefedd 'cudd'), gan helpu i atal digartrefedd rhag dychwelyd i'r stryd. Ategwyd y teimladau hyn hefyd gan Gadeirydd y Pwyllgor Craffu, a oedd hefyd wedi eistedd ar y Grŵp Gorchwyl a Gorffen ac wedi cyfeirio at yr adborth cadarnhaol gan bobl sy'n byw yn natblygiad Court Road am y llety dros dro i bobl ddigartref.

Canmolodd Pennaeth y Gwasanaethau Tai ac Adeiladu'r adroddiad a'i argymhellion hefyd, a fyddai'n helpu i ddarparu'r gwasanaethau perthnasol ac atal neu leihau digartrefedd. Ychwanegodd fod y Cyngor wedi wynebu nifer o heriau yn ystod y blynyddoedd diwethaf (fel COVID-19) a oedd wedi profi ei allu i ymateb a darparu gwasanaethau, gan gynnwys ei ddarpariaeth tai a digartrefedd. Byddai'r adroddiad hwn yn helpu i sicrhau bod gwasanaethau tai mewn sefyllfa dda wrth symud ymlaen. At hynny, byddai adroddiadau eraill yn dod gerbron y Pwyllgor yn ystod y misoedd nesaf a fyddai'n edrych ar effaith darpariaeth tai lleol a'r argyfwng dyngarol yn Ukrain, lle byddai'r her yn cynorthwyo ac yn lletya ffoaduriaid o'r gwrthdaro. Cafwyd ymrwymiad gan Lywodraeth y DU, Llywodraeth Cymru a Chymdeithas Llywodraeth Leol Cymru i gynorthwyo ffoaduriaid o Syria ac Affganistan, gan gynnwys trigolion y Fro yn cyflwyno eu hunain i noddi ffoaduriaid yn ogystal â'r gwaith a fyddai'n cael ei wneud gan y Cyngor yn uniongyrchol i helpu i gartrefu'r rhain, fel y gwnaed yn flaenorol gyda thai ffoaduriaid o Syria ac Affganistan.

Ar ôl ystyried yr adroddiad a'r holl faterion a'r goblygiadau sydd ynddo, penderfynodd y Pwyllgor Craffu

ARGYMGELLWYD –

- (1) BOD y Pwyllgor yn cymeradwyo canfyddiadau ac argymhellion y prif adroddiad ar Ddarpariaeth Tai a Digartrefedd ym Mro Morgannwg gan y Grŵp Gorchwyl a Gorffen.
- (2) BOD yr adroddiad yn cael ei gyfeirio at y Cabinet i'w ystyried a'i gymeradwyo.
- (3) BOD adroddiad diweddarar ar hyn yn cael ei ddarparu i'r Pwyllgor Craffu ymhen 12 mis ac i'r adroddiad gael ei gyfeirio at y Cabinet.

Rheswm dros yr argymhelliad

- (1) Rhoi ystyriaeth i gynnwys yr adroddiad a'r trafodaethau yn y cyfarfod.
- (2) Er mwyn i'r Cabinet ystyried y canfyddiadau, y camau gweithredu a'r argymhellion a wnaed gan y Grŵp Gorchwyl a Gorffen.
- (3) Sicrhau bod y Pwyllgor Craffu a'r Cabinet yn cael y wybodaeth ddiweddaraf am unrhyw gynnydd a wnaed o ganlyniad i ganfyddiadau ac argymhellion y prif adroddiad ar y Ddarpariaeth Tai a Digartrefedd ym Mro Morgannwg.